# Archifau Morgannwg

# Adroddiad Blynyddol

# 2020-2021



Archifau Morgannwg yw'r gwasanaeth archifau ar gyfer siroedd hanesyddol Morgannwg Ganol a De Morgannwg, sy'n gwasanaethu awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

## Gweledigaeth

Gweledigaeth y gwasanaeth yw casglu a chadw treftadaeth ddogfennol sir hanesyddol Morgannwg (gan ymgorffori Morgannwg Ganol a De Morgannwg, yn ogystal â rhai cofnodion ar gyfer Gorllewin Morgannwg) ar gyfer pawb a'i rhannu â phawb.

## Datganiad Cenhadaeth

Cenhadaeth y gwasanaeth yw diogelu a datblygu'r casgliadau, wrth eu gwneud mor hygyrch â phosibl hefyd er mwyn ennyn diddordeb, addysgu a grymuso pawb sy'n dod i gysylltiad â nhw, nawr ac yn y dyfodol.  Bydd y gwasanaeth yn mynd ati mewn ffordd ragweithiol a chynhwysol i wella'r casgliad a mynediad iddo drwy fynd i'r afael ag ôl-groniadau catalogio a chadwraeth, datblygu ateb cynhwysfawr ar gyfer cadwraeth ddigidol a chroesawu dulliau newydd ac arloesol o sicrhau mynediad i'r casgliadau mewn byd sy'n gynyddol ddigidol.



**Croeso i 11eg Adroddiad Blynyddol Archifau Morgannwg sy'n disgrifio gweithgareddau rhwng 1 Mawrth 2020 a 31 Rhagfyr 2021.**

## Cyflwyniad

Dyma fy adroddiad blynyddol cyntaf fel Archifydd Morgannwg yn dilyn fy mhenodi ym mis Ebrill 2020. Prin y gallwn fod wedi dychmygu, pan dderbyniais y rôl, y byddai dwy flynedd gyntaf fy swydd newydd mor aflonydd ac anodd. Caeodd adeilad Archifau Morgannwg ar 24 Mawrth o ganlyniad i'r pandemig ac yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Cymerais yr awenau ar 1 Ebrill ac etifeddais fyd o ansicrwydd a dryswch – i staff, i ddefnyddwyr ac i bawb o'n cwmpas. Cymerodd nifer o fisoedd i ni allu cael staff yn ôl i mewn i'r adeilad ac ni wnaethom ailagor i'r cyhoedd tan fis Mehefin 2021. Oherwydd hyn i gyd, nid oedd llawer i'w adrodd ar ddiwedd y flwyddyn a dyna pam mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu cyfnod hwy na'r arfer.

Yn y gorffennol, byddai'r adroddiadau blynyddol hyn yn adrodd am nifer y bobl a ddefnyddiodd y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn – nifer yr ymweliadau gan unigolion a grwpiau a nifer y dogfennau a gynhyrchwyd ar eu cyfer. Afraid dweud bod y ffigurau hynny'n wahanol iawn i'r cyfnod cyn y pandemig oherwydd, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r gwasanaeth yn dal i weithredu gyda llai o staff gyda'r oriau agor wedi'u lleihau. Ac eto, mae llawer o agweddau cadarnhaol i'w hystyried o hyd dros y 22 mis diwethaf (cyfnod yr adroddiad hwn) ac mae gennym rai ystadegau defnydd i'w hadrodd:

| | |
|---|---|
| Nifer yr Ymwelwyr | 807 (gan gynnwys 16 grŵp cyn y cyfnod clo) |
| Nifer y dogfennau a gynhyrchwyd | 9,563 (gan gynnwys eitemau a gynhyrchwyd gan staff ar gyfer ymchwil a digideiddio) |
| Ymholiadau o bell | 7,234 |
| Presenoldeb mewn digwyddiadau ac ymgysylltu â staff | 1,341 |
| Ymwelwyr â'r wefan | 68,410 |
| Cyfryngau cymdeithasol (ers mis Medi 2020 pan ddechreuodd y gwaith olrhain) | Cynnydd yn nifer y dilynwyr<br>Twitter – 685<br>Facebook – 159<br>Instagram – 211<br>Cyrhaeddiad mwyaf – 42,791 ar Twitter (mis Ebrill 2021) |

Rydym hefyd wedi parhau i dderbyn deunydd newydd ac mae'r casgliad yn parhau i dyfu. Nodir rhai o uchafbwyntiau'r derbyniadau newydd hynny yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Un o gyflawniadau mwyaf arwyddocaol y misoedd diwethaf oedd adnewyddu statws Archifau Achrededig y gwasanaeth, a gadarnhawyd ym mis Tachwedd 2021. Mae achredu wedi bod yn safon genedlaethol ar gyfer gwasanaethau archifau ers 2013, ac mae'r Archifau Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob man sy’n derbyn deunydd, fel yr Archifau, gael ei achredu. Canmolwyd Archifau Morgannwg fel "esiampl o sut y dylai gwasanaeth archifau ddarparu ar ran nifer o awdurdodau lleol".

Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2021, cymerodd yr Archifau ran yn Arolwg Gwasanaethau Ymholiadau o Bell Archifau'r DU, sy'n edrych ar wasanaethau ymholiadau o bell archifau o safbwynt oedolion unigol. Mae'n arolwg sydd wedi'i gynllunio i fesur lefelau boddhad defnyddwyr o bell y gwasanaeth archifau – y rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaeth drwy'r post neu drwy e-bost gydag ymholiad. Gwahoddir pob ymholwr o bell sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn ystod cyfnod yr arolwg i gymryd rhan.

Boddhad cyffredinol y rhai a ymatebodd i'r arolwg oedd 96% (yn seiliedig ar y rhai a ddywedodd fod y gwasanaeth naill ai'n 'dda iawn' neu'n 'dda'). Yn gyffredinol, mae'r sgoriau a dderbyniwyd gan yr Archifau wedi gostwng ychydig ers yr arolwg diwethaf yn 2019, ond mae hynny'n debygol o ganlyniad i effaith y pandemig a’r addasiadau yr oedd angen eu gwneud i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau. Nod Archifau Morgannwg yw cyflawni sgôr 90% neu uwch yn yr arolwg hwn ac felly mae’r canlyniad yn dangos bod y gwasanaeth wedi llwyddo i barhau i ddarparu gwasanaeth ymholiadau o bell o ansawdd uchel er gwaethaf effaith y pandemig.

Un o'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y gwasanaeth ar hyn o bryd, ac i'r dyfodol, yw creu ystorfa ar gyfer cofnodion digidol anedig. Mae gwaith wedi bod ar y gweill yng Nghymru ers peth amser yn edrych ar atebion posibl ar gyfer y mater hwn, ac ym mis Hydref 2020 roedd Archifau Morgannwg yn rhan o gonsortiwm Cymreig a gafodd arian gan Gronfa Trawsnewid Digidol Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru i edrych ar ddyfodol hirdymor deunydd digidol anedig a grëir gan Gynghorau. Cynhyrchodd y prosiect hwnnw adroddiad a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion i ddatblygu cadwraeth ddigidol yng Nghymru. Mae grŵp llywio'r prosiect yn parhau i weithio ar wahanol dasgau i symud ymlaen â'r gwaith, ac i sefydlu, gobeithio, ateb ar gyfer cofnodion digidol a fydd yn datrys y bygythiad o dwll du digidol.



Mae grantiau eraill yn ystod y cyfnod hwn wedi cynnwys nifer o grantiau bach gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru ar gyfer mynychu cyrsiau a chynadleddau, ac offer fel darllenydd microffilm digidol a theclyn weldio ymylon ar gyfer Cadwraeth. Yn ogystal, roedd yr Archifau'n falch o gael grant sylweddol gan Gronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig a helpodd i ariannu system gamerâu sy’n creu lluniau eglur iawn er mwyn gallu gwneud gwaith digideiddio o ansawdd gwell yn y dyfodol.

## Allgymorth

Mae'r Archifau wedi elwa'n aruthrol dros nifer o flynyddoedd o waith gwirfoddolwyr, ac nid yw'r cyfnod diweddar wedi bod yn wahanol er gwaethaf y cyfyngiadau a grëwyd drwy gau'r adeilad a'r cyfnod hir o fesurau ymbellhau cymdeithasol. Mae llawer o'r gwirfoddolwyr presennol wedi parhau i weithio gartref ar ran yr Archifau, gan drawsgrifio a mynegeio delweddau digidol o gasgliadau. Croesawyd y gwirfoddolwyr yn ôl i’r safle ym mis Tachwedd 2021 ac roeddent, unwaith eto, yn gallu gweithio ar y casgliadau eu hunain. Yn ystod y cyfnod hwn, mae eu prosiectau wedi cynnwys cytundebau criw, cofrestrau derbyn cyfraith tlodi, gohebiaeth teulu Leversuch, cofnodion cleifion ysbyty, a chynhyrchu cymhorthyn canfod ar gyfer dyddiadur 1877 Tudor Crawshay, ymhlith pethau eraill.



Cafodd y llif arferol o ymweliadau a sgyrsiau eu hatal yn llwyr pan gafodd yr adeilad ei gau, a chymerodd ychydig o amser i sefydlu dulliau amgen o gynnal y rhain. Cyn cau'r adeilad, croesawyd Bwrdd y Gymdeithas Archifau a Chofnodion (y DU ac Iwerddon) ar gyfer cyfarfod a thaith.  Ailddechreuodd y sgyrsiau ym mis Rhagfyr 2020 gyda'r sgwrs ar-lein gyntaf am 'Hanes y Nadolig ym Mhrydain Fodern' gan yr Athro Martin Johnes o Brifysgol Abertawe.  Cafwyd nifer o sgyrsiau eraill ers hynny, gan gynnwys un am Dribiwnlys Apeliadau Milwrol y Rhyfel Byd Cyntaf, un am Amgueddfa Castell Cyfarthfa, un am Beth i'w ddisgwyl o Gyfrifiad 1921 (a ddenodd dros 100 o fynychwyr), un am Islam yn Nhirwedd Caerdydd a sawl sgwrs am Wastadeddau Gwent.

Nid yw'r ymweliadau arferol gan ysgolion wedi ailddechrau eto, ond mae nifer o sesiynau wedi'u cynnal o bell, ac mae'r gefnogaeth i addysg uwch wedi aros yn gyson drwy gydol y cyfnod, yn enwedig gyda myfyrwyr o Brifysgol Caerdydd.

Gosodwyd arddangosfa'r Archifau Seneddol 'The Journey to Democracy' yn y cyntedd ar 6 Mawrth 2020, ychydig cyn cau'r adeilad.  Roedd i fod i aros yno am ychydig fisoedd, ond cafodd hyn ei hestyn am dros flwyddyn oherwydd y pandemig.

Cafodd arddangosfa 'Tiger Bay and the World' y Gyfnewidfa Dreftadaeth a Diwylliannol ei lansio ym mis Gorffennaf 2021 a'i gosod yn y cyntedd yn fuan wedyn.  Daeth Vaughan Gething, AoS De Caerdydd a Phenarth, i weld yr arddangosfa ac i gwrdd â chynrychiolwyr o'r Gyfnewidfa ac Archifau Morgannwg.



Mae nifer y bobl sy’n dilyn tudalennau cyfryngau cymdeithasol y gwasanaeth wedi tyfu’n gyson yn ystod y pandemig ac mae rhai postiadau wedi bod yn llwyddiannus iawn.  Yn benodol, ym mis Ebrill, rhannwyd casgliad o ffotograffau o bobl o Ddociau Caerdydd, dyddiedig 1900-1920, nad oes gennym lawer o wybodaeth amdanynt.  Cafodd y ffotograffau groeso mawr ar y cyfryngau cymdeithasol a gwnaethon nhw ddal sylw’r cyfryngau lleol a chenedlaethol hefyd.  Ymddangosodd yr Uwch Archifydd ar BBC Breakfast a BBC Wales Today i drafod y ffotograffau, ac ymddangosodd Archifydd Morgannwg gyda'r delweddau ar y rhaglen Antiques Roadshow, a ddarlledwyd ym mis Medi.



Mae Archifau Morgannwg wedi parhau i weithio gydag ystod eang o bartneriaid drwy gydol y 22 mis diwethaf.  Mae rhai o'r perthnasoedd hynny wedi adeiladu ar y sylfeini presennol, ac mae rhai yn bartneriaethau newydd sydd wedi datblygu yn ystod y pandemig.  Mae'r gwasanaeth wedi cefnogi llawer o sefydliadau lleol gyda'u prosiectau eu hunain.  Mae hyn yn cynnwys grwpiau fel Cardiff People First a Vale People First, Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru, Arts Shell, Cymdeithas Hanes Lleol Grangetown, Cymdeithas Hanes Teuluoedd Morgannwg, Cymdeithas Cofnodion De Cymru, Prosiect Archifau Merthyr, Scribla Collective, a Chymdeithas Norwyaidd Cymru, ymhlith eraill.  Cysylltwyd â'r Archifau hefyd ynghylch gweithio mewn partneriaeth ar ddau brosiect ymchwil academaidd gwahanol: un dan arweiniad Prifysgolion Glasgow a Reading yn edrych ar ddelweddu ffrydiau gwaith gydag archifau digidol a'r llall dan arweiniad Prifysgol Ganolog Ewrop yn meddwl am fesur cyfranogiad yn y sector treftadaeth ddiwylliannol yn Ewrop.  Mae'r ddau yn aros am ganlyniadau eu ceisiadau am arian.

**Cadwraeth**

Mae gwaith wedi parhau ar y prosiect a ariennir gan gronfa'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Llawysgrifau Cenedlaethol i gadw arolygon Ystâd Plymouth, sydd wedi golygu tynnu'r dogfennau amgaeedig oddi wrth ei gilydd i lanhau, atgyweirio a digideiddio pob cynllun cyn i'r cyfrolau gael eu hail-rwymo a'u rhoi mewn blychau.  Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio'n fawr gan y pandemig ond mae'n mynd rhagddo'n dda.



Cwblhawyd nifer o gomisiynau allanol hefyd gan Gadwraeth yn ystod y cyfnod, gan gynnwys gwaith ar fap ystâd Llansawel ar gyfer Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, ail-rwymo bron 500 o gofrestrau ar gyfer Gwasanaeth Cofrestru Pontypridd, atgyweiriadau ar ran Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru a glanhau a rhoi eitemau mewn blychau ar gyfer Clwb Criced Morgannwg, ymhlith pethau eraill.

Casgliadau

Bu'r gwasanaeth yn ffodus i gael arian gan ffrwd ariannu Archives Revealed ar gyfer y prosiect 'Amser a Llanw', i gatalogio cofnodion Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain, gan ddechrau ym mis Rhagfyr 2019.  Effeithiwyd yn fawr ar y prosiect hwn pan gaewyd yr adeilad yn ystod y cyfnod clo cyntaf, gan ei bod yn anodd catalogio cofnodion pan nad oes gennych fynediad i'r casgliad.  Serch hynny, llwyddodd Archifydd y Prosiect i gwblhau'r rhan fwyaf o'r gwaith angenrheidiol yn ystod ei blwyddyn gyda ni, ac mae'r tîm wedi gweithio ar yr eitemau oedd yn weddill ers iddi ein gadael ym mis Rhagfyr 2020.

Defnyddiodd y staff y cyfle i weithio gartref tra bod yr adeilad ar gau o fis Mawrth 2020 i wneud rhywfaint o waith cefndir ar ddisgrifiadau'r casgliadau ac i sgorio pob casgliad yn ôl-weithredol o ran ei flaenoriaeth gatalogio. Mae hyn yn helpu i nodi casgliadau sy'n addas ar gyfer prosiectau catalogio yn y dyfodol.

Dechreuodd y gwaith hefyd ar sefydlu system ar gyfer mynegeio cronfa ddata'r catalog yn ôl enwau lleoedd. Mae’r gwaith hwn wedi'i arafu gan y symudiad tuag at feddalwedd newydd ar gyfer catalogio, a fydd hefyd yn creu rhyngwyneb cyhoeddus llawer gwell. Mae gwaith wedi bod ar y gweill ar y symudiad hwn yn ystod rhan olaf 2021, a'r gobaith yw lansio'r catalog newydd yn 2022.



Mae'r casgliadau wedi parhau i dyfu yn ystod y cyfnod, er nad oedd modd derbyn deunydd newydd pan oedd yr adeilad ar gau.  Ers hynny, mae llif y derbyniadau newydd wedi ailddechrau, ac mae'r gwasanaeth wedi bod yn falch o groesawu ystod eang o ddeunydd. Cafwyd 94 o dderbyniadau yn 2020, a 128 yn 2021.  Dyma rai o uchafbwyntiau’r derbyniadau newydd:

- Casgliad mawr o gofnodion gan Gymdeithas Adeiladu'r Principality, gan gynnwys llyfrau cyfrifon, llyfrau arian parod, cofrestrau aelodau a chofnodion cymdeithasau adeiladu cysylltiedig a oedd yn gysylltiedig â'r Principality, dyddiedig o'i sefydlu ym 1860 hyd heddiw.
- Casgliad yn cynnwys cofnodion gweinyddol Cymdeithas Ddinesig Penarth, ynghyd â chylchlythyrau a gohebiaeth.  Dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf mae'r Gymdeithas wedi ymgyrchu dros ddiogelu a gwella tref Penarth ynghyd â'i threftadaeth a'i bywyd diwylliannol.
- Amrywiaeth eang o gofnodion eglwysig gan gynnwys cofrestrau’r Eglwys yng Nghymru, cofnodion a deunydd cysylltiedig – er enghraifft o blwyfi Ystum Taf yng Nghaerdydd a Llangynwyd ym Maesteg –, yn ogystal â chofnodion Capeli o bob rhan o'r ardal, gan gynnwys Capel Bryn Seion, Ystrad Mynach, ac Eglwys Fethodistaidd Radur.
- Derbyniwyd nifer o gasgliadau busnesau gan gynnwys EJ Llewellin o’r Barri, Argraffwyr; Cwmni Theatr Iolo; Giles a Harrap, a bragwyr Merthyr Tudful.



- Deryniwyd nifer mawr o gasgliadau teuluol a phersonol gan gynnwys casgliad bach o bapurau teuluol a ffotograffau sy'n ymwneud â Dowlais, Merthyr Tudful, gan deulu a oedd wedi byw yn Nowlais ers blynyddoedd lawer; cofnodion Victor Warren Eveleigh ynglŷn â'i fywyd a'i waith drwy'r 20fed ganrif; papurau William George Chamberlin, y cerddor; papurau Kenneth W.B. Harris, yr athletwr gan gynnwys darnau o bapurau newyddion a ffotograffau sy'n ymdrin â'i yrfa chwaraeon a'i fywyd yn ymwneud ag Athletau Cymru; ffotograffau a phapurau Clara Novello Davies; casgliad gan Eluned Mair Mackender o Gwm Llynfi gan gynnwys cofnodion o ddramâu amatur a chymdeithasau operatig, grwpiau ieuenctid a chymdeithasau gwyddonol drwy ganol yr ugeinfed ganrif; papurau gan Susam Moore o Gaerdydd sy'n ymwneud â'i haddysg a'i gyrfa yng nghanol yr ugeinfed ganrif; a llawer o gasgliadau eraill.
- Amrywiaeth o ddeunyddiau gan yr awdurdodau cyfansoddol a wasanaethwn gan gynnwys cofnodion y Cyngor a deunydd cysylltiedig arall, gan ymgorffori cofnodion cyrff rhagflaenol (cyn y trefniadau presennol). Yn ogystal, derbyniwyd llawer o ddeunydd gan wleidyddion lleol ynglŷn â'u hamser yn y swydd.
- Un o dderbyniadau mwyaf a mwyaf diddorol y cyfnod fu cyfres William Burges o ddarluniadau, cynlluniau a gweddluniau o Gastell Caerdydd. Mae'r casgliad a dderbyniwyd yn ystod 2021 yn cynnwys deunydd sy'n gysylltiedig â dylunio ac adeiladu Castell Caerdydd a Chastell Coch, yn ogystal ag amrywiaeth o adeiladau neu fannau llai eraill.

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r deunyddiau newydd a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod, cysylltwch â'r Archifau. Ceir rhestrau llawn o'r deunyddiau a dderbyniwyd yn adroddiadau Archifydd Morgannwg i Gydbwyllgor Archifau Morgannwg, sydd ar gael drwy wefan Cyngor Caerdydd.

Er bod y cyfnod mor ansefydlog ac aflonyddgar, mae'r tîm wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol gyda nifer o brosiectau ac wedi cyflawni llawer er gwaethaf y cyfyngiadau y mae wedi eu hwynebu. Mae fy mlwyddyn gyntaf a hanner yn gyfrifol am y gwasanaeth wedi bod yn heriol am nifer o resymau, ond mae wedi bod yn bleser dechrau cwrdd â defnyddwyr, gwirfoddolwyr, y rhai sy'n rhoi deunydd, partneriaid ac eraill. Mae llawer i mi ei ddysgu a'i brofi yn y rôl o hyd ac rwy'n gobeithio cael y cyfle i fynd allan i'r gymuned yn fwy dros y flwyddyn i ddod. Mae angen i mi ddiolch i'r tîm yn arbennig am roi croeso mawr i mi ac am fy nghefnogi drwy'r cyfnod digyffelyb rydym wedi'i brofi ers i mi ddechrau'r swydd.

Laura Cotton, Archifydd Morgannwg